# Cadw'n SMART
# Deunyddiau a Gweithgareddau Cefnogi i Athrawon

Mae gweithgareddau Cadw'n SMART yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 2 y Fframwaith ABCh ar gyfer pobl ifanc 7 i 19 oed yng Nghymru 2008 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013.

| **Gweithgaredd dilynol Cadw'n SMART** | **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013** | **Cysylltiadau â'r Fframwaith ABCh ar gyfer pobl ifanc 7 i 19 oed yng Nghymru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| **1 Gweithgareddau Rhagarweiniol**<br>a) **Cwis Cadw'n SMART**<br>b) **Gêm SMART** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(Y)ydd | • Ffurfio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus | • Cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu |
| **2. Ôl-troed Digidol** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(Y)ydd | • Defnyddio technegau priodol ar gyfer myfyrio personol<br>• Cydweithio i ddatrys problemau | • Cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu |
| **3.(S) SMART a Diogel**<br>**a) Gweithgaredd Her Dditectif** | Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)y&d | • Cyfrannu i drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon<br>• Nodi'r cysylltiadau | • Cymryd cyfrifoldeb cynyddol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach<br>• Beth i'w wneud |

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent
SMART

| | | | |
|---|---|---|---|
| **b) Checio i mewn** | | rhwng achos ac effaith<br>• Cydweithio i ddatrys problemau<br>• Defnyddio TGCh yn ddiogel gyda chefnogaeth ac arweiniad priodol | neu at bwy o fynd pan yn teimlo'n anniogel<br>• Pwysigrwydd diogelwch personol |
| **4.(M) SMART a Chwrdd Gweithgaredd Senarios** | Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)y&d | • Nodi'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Llunio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus<br>• Mynegi eu barn a'u syniadau drwy ystod o ddulliau priodol<br>• Gwrthsefyll pwysau ac ymddygiad digroeso gan gyfoedion | • Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill.<br>• Deall sefyllfaoedd sy'n creu gwrthdaro a natur bwlio<br>• Bod canlyniadau i weithredoedd personol |
| **5. Ffrindiau Arlein** | Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | • Llunio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus<br>• Cyfrannu i drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon<br>• Cydweithio i ddatrys problemau | • Teimlo'n gadarnhaol amdanynt eu hunain a bod yn sensitif i deimladau pobl eraill<br>• Sefyllfaoedd sy'n creu gwrthdaro a natur bwlio<br>• Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill. |

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent
SMART

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6. Afatariaid Anhygoel** | Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | • Llunio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus<br>• Gofyn am gefnogaeth a chyngor personol | • Derbyn cyfrifoldeb cynyddol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel<br>• Pwysigrwydd diogelwch personol<br>• Beth i'w wneud neu at bwy o fynd pan yn teimlo'n anniogel |
| **7. Gweithgaredd Creu Poster** | Ll(Y)ydd<br>Ll(Y)s&th<br>Ll(li)i | • Technegau ar gyfer myfyrio personol<br>• Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | • Cyfranogi ym mywyd yr ysgol<br>• Bod yn onest a theg a bod â pharch at reolau, y gyfraith ac awdurdod |

**1. a) Cwis SMART**

Dangoswch y PowerPoint (1a) a gofynnwch i'r disgyblion ddewis yr atebion cywir a'u hysgrifennu ar ddarn o bapur. Neu gall y cwis gael ei argraffu (1b) ar gyfer gwaith pâr neu grŵp bach.

Rhowch adborth o'r atebion i'r dosbarth cyfan ac atgyfnerthwch yr atebion cywir. Mae'r atebion i'w cael ar (1c).

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent
SMART

**b) Gêm SMART**

Trefnwch gylch o gadeiriau a rhowch enw un o'r Rheolau SMART i bob disgybl (SAFF, MEDDWL, AROS, RHAID COFIO, TEIMLO'N ANNIFYR ). Gofynnwch i un disgybl sefyll yng nghanol y cylch a gweiddi un o'r geiriau SMART. Mae'n rhaid i bwy bynnag sydd â'r rheol (neu'r gair) godi ar ei draed/thraed a newid sedd tra bod y person yn y canol yn gorfod ceisio eistedd ar sedd wag. Gellir hefyd weiddi dywediad "RHEOLAU SMART" a bydd yn rhaid i BAWB newid seddau. Y prif nod yw cael galwr newydd ar gyfer pob rownd. Gall y gêm barhau drwy dynnu un neu ddwy gadair o'r cylch ar bob galwad hyd nes y bydd un enillydd ar ôl.

**2. Ôl-troed Digidol**

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a dosbarthwch y diffiniadau a'r cardiau SMART (2a). Dechreuwch drwy gael y grwpiau i gyfateb y cardiau SMART i'r diffiniad. Gofynnwch i un grŵp ddod i flaen y dosbarth i rannu beth y maent wedi'i wneud.

Pawb arall i wirio eu hatebion. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gywiro unrhyw atebion anghywir, trafod y negeseuon diogelwch a chael gwared ag unrhyw gamsyniadau.

Yna, gofynnwch i'r disgyblion pa rai yw eu hoff wefannau. Gellir cofnodi'r ymatebion ar y bwrdd gwyn fel eu bod ar gael i'r disgyblion gyfeirio atynt yn ddiweddarach. Dosbarthwch ddarn mawr o bapur i bob disgybl a gofynnwch iddynt dynnu llinell yn ofalus o amgylch eu troed eu hunain. Yna gall y disgyblion ysgrifennu neu dynnu lluniau'r gwefannau y gwnaethant ymweld â hwy yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Dyma eu ôl-troed digidol. Trafodwch gyda'r dosbarth y ffaith fod pob un o'r gwefannau y maent yn ymweld â hwy yn gadael 'ôl' yn union fel ôl-troed. Caiff yr ymweliadau eu cofnodi.
(Gellir defnyddio hwn fel asesiad athro fel bod athrawon yn gwybod ar ba lefel i ddechrau'r gwaith Rhyngrwyd)

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent
SMART

(Saff M A R T)

**3a Gweithagredd Her Ditectif**

Er mwyn cynorthwyo disgyblion i ddeall beth yw gwybodaeth bersonol, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch gopi o'r adnodd llun (3a) i bob grŵp. Gofynnwch y cwestiwn canlynol i'r disgyblion:

- Beth allwch chi ddweud am y plentyn hwn drwy edrych ar y llun?

Heriwch bob grŵp i ddarganfod cymaint o wybodaeth ag y gallant am y plentyn yn y llun mewn 5 munud! Rhowch adborth i'r dosbarth cyfan.
Mae'r llun yn dangos - enw, cyfeiriad, ysgol, clwb, diddordebau a hobïau, lluniau o'r plentyn, teulu a ffrindiau a hyd yn oed cyfrinair (ar sgrin y cyfrifiadur) yn ogystal â phethau megis hoff fandiau, lliwiau, llyfrau ac ati.
Eglurwch y gallai oedolyn dracio a darganfod gwybodaeth am y plentyn hwn hefyd felly mae'n bwysig bod yn SMART a chadw'n ddiogel. Diffoddwch y gwe-gamera pan na fyddwch yn ei ddefnyddio a chadwch wybodaeth bersonol yn ddiogel.

**3b Checio i mewn**

Cyfeiriwch yn ôl at wers y Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion a'r animeiddiad DVD am Rhys a Celyn.
Gofynnwch i'r disgyblion:

- Lle byddwn ni'n checio i mewn? Ysgrifennwch yr atebion ar y bwrdd gwyn (maes awyr, fel ymwelwyr, meddygfa, ar-lein, Amazon, gwefannau siopa ar y rhyngrwyd, gemau pêl-droed, cyngherddau, lleoliadau)

Trafodwch eu bod yn rhoi gwybodaeth bob tro y byddant yn checio i mewn.
Cyflwynwch lun ffôn symudol yn dangos map ar y sgrin (3b.) a chyflwynwch y syniad o checio i mewn ar ffôn symudol. Gofynnwch faint o'r disgyblion sydd â 'check-in' ar eu ffonau. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Rhowch gopi o'r llun (3b) i bob grŵp fel ysgogiad ac yna gofynnwch:

- Pa wybodaeth ydych chi'n ei rhoi wrth gofrestru ar eich cyfrifiadur neu'ch ffôn? (Eich enw a'ch lleoliad ar yr adeg honno)

Rhowch adborth i'r dosbarth cyfan. Gwnewch yn siŵr bod y disgyblion yn deall beth y mae checio i mewn yn cyfeirio ato.
Mae checio i mewn yn golygu eich bod yn rhoi eich lleoliad ar yr adeg honno ac y gallwch gael eich tracio lle bynnag yr ewch! Gall ffonau symudol a chyfrifiaduron ddefnyddio GPS (System Leoli Byd-eang) i ddod o hyd i chi. Mae'r wybodaeth hon ar gael i bawb yn eich rhwydwaith cymdeithasol. Trafodwch gyda'r disgyblion pwy na fyddech chi'n dymuno rhannu'r wybodaeth hon â nhw. (Dieithryn, ffrind yr ydych wedi cweryla ag ef/hi, brawd neu chwaer bryfoclyd)
Cynigiwch rai cynghorion:

- Siaradwch ag oedolyn cyfrifol am y pethau sydd ar eich ffôn
- Diffoddwch y GPS ar eich ffôn

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent
SMART

(S **Meddwl** A R T)

**4. Gweithgaredd Senarios**

Rhannwch y dosbarth i grwpiau bach a darllenwch y senario ysgogi canlynol i'r dosbarth (PowerPoint 4a i'w arddangos neu ei argraffu fel copi papur).

> Rydych wedi cael ffrindiau draw i aros yn eich tŷ ac mae un ohonynt yn tynnu llun ohonoch yn y bore a chithau ddim ar eich gorau. Mae'n rhoi hwn ar-lein i weddill eich dosbarth gael ei weld.

Gofynnwch faint o bobl sy'n gweld y ffotograff hwn mewn gwirionedd?
Er mwyn dangos sut mae postiadau o'r fath yn gallu lledu a mynd allan o reolaeth gofynnwch i bob disgybl ysgrifennu ei enw ar bapur post-it a gosod pob un ar ganol bwrdd gwyn. Ar post-it lliw gwahanol gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu enwau ffrindiau eraill sydd ganddynt nad sydd yn y dosbarth. Gosodwch yr enwau hynny ar y bwrdd o amgylch y grŵp cyntaf.
Gofynnwch: Faint o bobl allai weld y ffotograff nawr?
Ailadroddwch ei bod yn bwysig bod yn gyfrifol a chadw gwybodaeth bersonol, yn cynnwys ffotograffau, yn breifat. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a dosbarthwch gerdyn senario (4b) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion drafod y senario ac ateb y cwestiynau ar y cerdyn. Rhowch adborth i'r dosbarth cyfan ac atgyfnerthwch y materion sy'n codi.

(S M **Aros** R T)

**5. Ffrindiau ar-lein**

Tasgwch syniadau ynglŷn â beth yw ffrind ar-lein da ar y bwrdd gwyn:

| Ffrind Da | Ffrind Gwael |
|---|---|
| Negeseuon caredig | Negeseuon cas |
| Meddylgar | Esgeulus |
| Doniol | Creulon |
| Teyrngar | Bradychu |
| Teg | Annheg |
| Parchus | Amharchus |
| Dangos gofal | Gwawdio |
| Preifatrwydd | Cario clecs |

Gosodwch ddau gylch ar lawr yr ystafell ddosbarth gydag wyneb hapus yn un a thrist yn y llall (5a). Bydd disgyblion yn gweithio mewn parau. Rhowch un cerdyn neges (5b) i bob pâr a gofynnwch iddynt bendrfynnu ble i roi'r neges. Mewn dosbarthiadau bach gall y disgyblion gael neges yr un.
A yw hon y math o neges y byddech yn ei hanfon petaech yn ffrind da?

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent
SMART

A yw hon y math o neges y byddai ffrind gwael yn ei hanfon?

**Negeseuon**

- Gôl anhygoel amser chwarae heddiw!
- Wyt ti'n teimlo'n well nawr?
- Beth wyt ti'n galw dyn yn gorwedd o dan gar? Jac!
- Paid â chymryd sylw o beth ddywedwyd heddiw. Rwy i'n dal yn ffrind i ti.
- Gan dy fod wedi colli dy losin heddiw fe rodda i hanner fy mhaced i ti fory.
- Diolch am gael benthyg dy lyfr, fe ofala i amdano tan wythnos nesaf.
- Llawer o hwyl yn tynnu'r lluniau heddiw! Paid â phoeni wna i ddim eu rhannu nhw gydag unrhyw un.
- Rwy'n casáu dy steil gwallt newydd.
- Mae dy drainers newydd yn hen ffasiwn yn barod!
- Rwy'n mynd i barti Louise – ches ti ddim gwahoddiad? O diar!
- Iawn sbecs!!!!
- Dydw i ddim yn mynd i fod yn ffrind i ti rhagor.
- Rydym yn mynd i'r dre fory a does dim gwahoddiad i ti.
- Ydych chi wedi gweld y llun o Sam? Ond dyw e'n edrych yn dwp!
- Does gen ti ddim x-box eto?
- Fe helpa i di i orffen dy stori.
- Fe wnâi dy ychwanegu at fy rhestr cysylltiadau heno
- Fyddwn i byth yn dy ychwanegu at fy rhestr cysylltiadau!

Trafodwch os byddwch yn postio unrhyw beth ar-lein gall y negeseuon gael eu tracio. Mae hynny'n golygu y gellir adnabod unrhyw fwli. Deuir o hyd iddynt.
Gofynnwch i'r disgyblion mewn parau beth fyddent yn ei wneud pe baent yn derbyn negeseuon cas ar-lein. Yna gofynnwch iddynt rannu eu hatebion gyda phâr arall.
(Dweud wrth athro/athrawes, dweud wrth riant neu ofalwr, dweud wrth frawd neu chwaer hŷn, cysylltu â Cybermentors, cadw copi o'r neges, dweud wrth eich Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion)
Atgoffwch y disgyblion y gallant helpu eu hunain drwy beidio derbyn negeseuon gan bobl nad ydynt yn eu hadnabod ac y gallant ddileu 'ffrindiau' o'u cysylltiadau os ydynt yn fwlis neu yn angharedig.


© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent
SMART

(S M A **Rhaid cofio** T)

**6. Afatariaid Rhyfeddol**

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch broffil llun (6a) i bob un. Mae'r proffil yn ffurf syml o beth allai ymddangos ar wefan rhwydweithio cymdeithasol megis Moshi Monsters a Facebook.
Gofynnwch i'r disgyblion benderfynu i beth y mae'r cymeriad yn debyg. (Tywysoges, Draig Las, Dewin, Bachgen, Perchennog Stondin Marchnad, Tarian)
Gofynnwch i'r disgyblion rannu eu syniadau â'r dosbarth.

Dangoswch y sleid PowerPoint gyda llun y Dywysoges Binc (6b). Gofynnwch pa grŵp oedd yn trafod ei phroffil. Gadewch i'r disgyblion ddweud wrth y dosbarth beth maent wedi ei baratoi amdani (os oes mwy nag un grŵp wedi defnyddio cerdyn y Dywysoges Binc mynnwch eu hadborth hwythau hefyd.) Gofynnwch i'r disgyblion:

- A allwn ni fod yn siŵr ein bod yn adnabod y person y tu ôl i'r afatar?
- Sut allwn ni wybod? (Ni allwn)

Datgelwch y gwir berson y tu ôl i'r afatar ar y PowerPoint. Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio'r dyn yn y llun (dyn, hen, dieithryn). Nid yw'n bwysig pa mor hir yr ydych wedi bod yn siarad â rhywun ar-lein neu'n chwarae gêm gyda nhw nid ydych bob amser yn gwybod pwy ydynt mewn cig a gwaed.
Cofiwch y dylid son am hwyl chwarae gemau ac anfon negeseuon cymdeithasol.
Gorffennwch drwy atgoffa'r disgyblion os ydynt yn teimlo'n anghyfforddus neu nad ydynt yn siŵr pwy i'w dderbyn fel ffrind dylent siarad ag oedolyn y gallant ymddiried ynddo neu ei riportio i www.clickceop.net neu www.cybermentors.org.uk.

(S M A R **Teimlo'n annifyr**)

**7. Gweithgaredd Creu Poster**

Crëwch boster neu gyflwyniad byr i ddangos ac addysgu'r rheolau SMART yn ystod gwers i ddosbarth arall neu mewn gwasanaeth. Gellir defnyddio'r poster SMART (7a) er mwyn cyfeirio ato. Gallai'r disgyblion gynnwys cymeriadau o Byd Chwedlau Cymru (7b). Neu gellir defnyddio'r cymeriadau animeiddiad i gefnogi gwaith llythrennedd. Gallai disgyblion ddatblygu bwrdd stori a gwneud gwaith ysgrifennu estynedig ar y pwnc.

Ar gyfer gwefannau ychwanegol a argymhellir gweler adran dolenni [www.schoolbeat.org](http://www.schoolbeat.org)

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent
SMART